# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Ebrill 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Rhif Ffon Cyswllt** | **32001** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Arolwg o drefniadau etholiadol Cyngor Gwynedd.** |

1. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyaeth o ymateb y Cyngor i Gynigion drafft y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol (gyhoeddwyd Ionawr 2018).

2. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Gan fod angen ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol erbyn 23 Ebrill 2018, mae angen i'r Cabinet, yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn, gymeradwyo'r ymateb i'r Comisiwn Ffiniau ar sail y cyfarwyddyd clir a roddwyd gan y Cyngor.

3. **CEFNDIR**

3.1 Bydd holl aelodau'r Cyngor yn ymwybodol fod y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol wedi cyhoeddi eu cynigion drafft ar gyfer yr arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Gwynedd.

3.2 Mae gofyn i ni ymateb erbyn 23 Ebrill 2018.

3.3 Yn ei gyfarfod ar 8fed o Fawrth, 2018 bu i'r Cyngor benderfynu ymateb i Gynigion drafft y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol trwy

- Ail ddatgan cynigion y Cyngor a phwyso'r Comisiwn i dderbyn yr hyn oedd yn ein cynigion gwreiddiol
- Awdurdodi'r Prif Weithredwr i gynnal trafodaethau gydag aelodau lleol yn y llefydd hynny lle mae'r aelodau lleol yn ystyried y byddai'n ddarbodus cynnig dewis amgen, ac
- Awdurdodi'r Cabinet i gynnwys y dewis amgen hwnnw yn yr ymateb ffurfiol os yw'r holl aelodau lleol yn unfrydol yn eu barn.
- Awdurdodi'r Cabinet i wneud awgrymiadau gwahanol i'r enwau wardiau etholiadol sydd yng nghynigion y Comisiwn os oes dymuniad lleol i wneud hynny.

3.4 Mae ymateb drafft wedi ei gynnwys yn yr adroddiad llawn yn Atodiad 1. Ymgorfforwyd barn y Cyngor ac ymateb yr aelodau lleol lle bo dewis amgen unfrydol wedi ei gynnwys.

3.5 Noder fod trafodaethau wedi eu cynnal yn yr ardaloedd a ganlyn:

- Gerlan ac Ogwen – barn unfrydol gan yr aelodau lleol ar gynnig amgen (ymgorfforwyd yn yr adroddiad)
- Ardal Pen Llyn – barn unfrydol gan yr aelodau lleol ar barhau i gefnogi cynnig gwreiddiol y Cyngor
- Bethel a'r Felinheli – barn unfrydol gan yr aelodau lleol ar barhau i genfogi cynnig gwreiddiol y Cyngor
- Harlech, Ardudwy a Llanbedr – barn y Cyngor yn erbyn sedd aml-aelod, a barn unfrydol gan yr aelodau lleol o blaid cynnig y Comisiwn Ffiniau
- Dolgellau – barn unfrydol gan yr aelodau lleol ar gynnig amgen (ymgorfforwyd yn yr adroddiad)

## 4. ARGYMHELLIAD

Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ymateb i Gynigion drafft y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol fel a nodir yn Atodiad 1.

## Barn Swyddogion Statudol:

### i. Prif Swyddog Cyllid

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

### ii. Swyddog Monitro

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 8fed o Fawrth gosodwyd tasg benodol i'r Cabinet sef gwirio fod yr ymateb arfaethedig i'r Comisiwn yn unol â'i benderfyniad. Mae'r adroddiad yn olrhain y gwaith sydd wedi ei gyflawni a statws y farn leol ar y cynigion amgen sydd yn yr ymateb mewn modd sydd yn cyfarch gofynion y Cyngor Llawn.